SWYDDFA COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU
OFFICE OF THE POLICE & CRIME COMMISSIONER NORTH WALES

# Cylchlythyr Newsletter

**Cylchlythyr #55 SCHTh Gogledd Cymru – 18 Hydref 2024**
**OPCC North Wales Newsletter #55 – 18 October 2024**

## Y CHTh yn cefnogi Wythnos Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb

Mae Wythnos Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb yn cael ei gynnal o 12 Hydref hyd at 19 Hydref eleni, ledled y DU er mwyn amlygu troseddau casineb. Mae'r ymgyrch, gafodd ei sefydlu yn 2009, yn para wythnos ac yn annog y Llywodraeth, yr Heddlu, cynghorau lleol, elusennau a chymunedau sydd wedi'u heffeithio gan ddigwyddiadau casineb, i gydweithio er mwyn ymdrin â throseddau casineb lleol ar draws y DU. Canolbwynt yr ymgyrch eleni ydy amlygu troseddau casineb gwrth-LHDT+. Yn ôl y trefnwyr, nod yr ymgyrch ydy i ddod â phobl at ei gilydd er mwyn sefyll yn un efo'r rhai sydd wedi'u heffeithio gan droseddau casineb, ac i gofio'r rhai 'da ni wedi'u colli, ac i gynorthwyo'r rhai sydd angen  cefnogaeth parhaus.

Mae Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru (CHTh) Andy Dunbobbin wedi estyn ei law i roi cefnogaeth lawn i'r ymgyrch, ac mae o wedi cynnal cyfres o ddigwyddiadau er mwyn nodi'r wythnos, ac i ymgysylltu â gwahanol gymunedau ledled y rhanbarth, sydd wedi'u heffeithio gan droseddau casineb**.** Darllenwch fwy yma.



## PCC backs National Hate Crime Awareness Week in North Wales

National Hate Crime Awareness Week is running from 12-19 October across the UK to highlight the issue of hate crime across the UK. The week-long campaign founded in 2009, encourages Government, the Police, local councils, charities, and communities affected by hate incidents, to work together to tackle local hate crime across the UK. This year it's key focus is highlighting Anti-LGBT+ Hate Crime. According to the organisers, the campaign aims to bring people together to stand in solidarity with those affected by hate crime, to remember those we have lost, and support those who need ongoing support.

North Wales Police and Crime Commissioner (PCC) Andy Dunbobbin has given the campaign his full backing and has held a series of events to mark the week and to engage with different communities across the region affected by hate crime. Read more here.

---

## CHTh Gogledd Cymru yn cefnogi wythnos o weithredu yn erbyn troseddau busnes

Mae Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru (CHTh) Andy Dunbobbin wedi rhoi ei gefnogaeth lawn i Wythnos Gweithredu Busnes Mwy Diogel y Ganolfan Troseddau Busnes Cenedlaethol (NBCC) sydd â'r nod o leihau troseddau busnes ledled y wlad.

Bydd y fenter, sy'n rhedeg o Hydref 14eg, yn gweld heddluoedd a phartneriaid yn cydweithio ar weithrediadau wedi'u targedu ac ymgysylltu â'r gymuned i godi ymwybyddiaeth o droseddau busnes.

I nodi'r wythnos o weithredu, ymwelodd y Comisiynydd â'r Rhyl i gwrdd ag Ashley Rogers, Prif Swyddog Gweithredol Cyngor Busnes Gogledd Cymru. Roedd eu trafodaethau'n canolbwyntio ar y mathau o droseddau busnes sy'n effeithio ar Ogledd Cymru a strategaethau ar gyfer atal a chefnogi.

Mae gwahanol fathau o droseddau busnes, gan gynnwys dwyn o siopau, byrgleriaeth busnes, a gwneud i ffwrdd heb dâl. Gall y troseddau hyn gael effeithiau sylweddol ar fusnesau, yn amrywio o golledion ariannol uniongyrchol i ganlyniadau hirdymor megis premiymau yswiriant uwch, costau ar gyfer mesurau diogelwch ychwanegol, a niwed i les staff. Darllenwch fwy yma.



## North Wales PCC backs week of action against business crime

North Wales Police and Crime Commissioner (PCC) Andy Dunbobbin has given his full support to the National Business Crime Centre's (NBCC) Safer Business Action Week aimed at reducing business crime across the country.

The initiative, running from October 14th, will see police forces and partners collaborating on targeted operations and community engagement to raise awareness of business crime.

To mark the week of action, the Commissioner visited Rhyl to meet with Ashley Rogers, Chief Executive Officer of North Wales Business Council. Their discussions focused on the types of business crime affecting North Wales and strategies for prevention and support.

Business crime takes various forms, including shoplifting, business burglary, and making off without payment. These offences can have significant impacts on businesses, ranging from immediate financial losses to long-term consequences such as increased insurance premiums, costs for additional security measures, and harm to staff wellbeing. Read more here.

## Clwb ieuenctid o Gaernarfon yn derbyn cyllid gan y CHTh er mwyn cynyddu ei waith

Yn ddiweddar, derbyniodd Clwb Ieuenctid Porthi Dre yng Nghaernarfon gyllid gan gynllun Arloesi i Dyfu Comisiynydd Heddlu a Throsedd (CHTh) Gogledd Cymru sef  Andy Dunbobbin. Roedd hyn er mwyn ehangu gwaith y clwb. Ymwelodd y Comisiynydd ar 16 Hydref er mwyn dysgu mwy am waith gwerthfawr y sefydliad yn y gymuned a gweld sut y bydd y cyllid o fudd iddyn nhw.

Mae'r clwb ieuenctid yng Nghaernarfon ac yn rhedeg bob nos Fercher rhwng 6-8pm.  Mae'n lle i helpu ac ysbrydoli pobl ifanc a lle gallan nhw sgwrsio hefo'i gilydd a gwneud ffrindiau. Mae'n cynnig ystod eang o weithgareddau i'r bobl ifanc ac yn paratoi prydau bwyd iddyn nhw bob tro y byddan nhw'n mynd.

Bydd y cyllid yn helpu cynyddu gweithgareddau cerddoriaeth yn y clwb, gan y cydnabyddir nad ydy gwersi a hyfforddiant cerddoriaeth traddodiadol yn aml yn hygyrch i blant sy'n mynychu'r clwb o gartrefi incwm is. Nod allweddol arall y prosiect ydy sefydlu dosbarthiadau ar ddiogelwch ar-lein a dechrau trafodaeth ynghylch cynnwys y mae pobl ifanc yn ei weld ar-lein. Yn y pen draw, bydd hyn yn helpu gwella iechyd meddwl a helpu deall y cynnwys y gallan nhw ei weld yn well. Darllenwch fwy yma.

## Caernarfon youth club receives funding from PCC to grow its work

Porthi Dre Youth Club in Caernarfon recently received funding from Police and Crime Commissioner (PCC) for North Wales, Andy Dunbobbin’s Innovate to Grow scheme to expand its work, and the PCC visited on 16 October to learn more about the organisation’s valuable work in the community and to see how the funding will benefit them.

The youth club is based in Caernarfon and runs every Wednesday between 6-8pm. It is a space to support and empower young people and where they can engage with each other and make friends. It offers a wide range of activities for the young people and prepares meals for them every time they go.

The funding will help grow music activities at the club, as there is a recognition that traditional music lessons and tuition are often inaccessible for children attending the club from lower income homes. Another key aim of the project is to set-up classes on online safety and start a dialogue around content that young people are seeing online and therefore to help support better mental health and to understand the content they might see better. Read more here.




## Diwrnod Gwrthgaethwasiaeth – Datganiad gan y Dirprwy CHTh

Heddiw, 16 Hydref, yw diwrnod atal caethwasiaeth ac i nodi’r dyddiad hwn, mae’r Dirprwy Comisiynydd Heddlu a Throsedd Wayne Jones wedi gwneud y sylw canlynol: “Mae Caethwasiaeth Fodern yn parhau bod yn un o'r troseddau mwyaf niweidiol ac hollbresennol sy'n digwydd heddiw yn y DU. Mae'n aml yn gudd a ddim yn cael ei hysbysu amdano lawer.  Rwyf yn croesawu cydnabod a hyrwyddo Diwrnod Gwrthgaethwasiaeth er mwyn codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ynghylch sut mae caethwasiaeth fodern yng Ngogledd Cymru yn edrych a sut y gellir ei wneud i fynd i'r afael ag o.

“Bydd Caethwasiaeth Fodern yn dod o dan un o bedwar categori, camfanteisio llafur, camfanteisio troseddol, camfanteisio rhywiol neu gaethiwed domestig. Yn aml, mae'n nodwedd allweddol o Droseddau Difrifol a Threfnedig. Mae ei ddioddefwyr yn cynnwys y rhai mwyaf bregus yn ein cymdeithas.  Mae llawer ohonynt yn blant, yn aml o gefndiroedd difreintiedig ac anodd. Maent yn aml yn agored i drais a cham-drin difrifol a phob un ohonynt angen ymateb effeithiol gan y gwasanaethau cyhoeddus.

“Mae Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn cydweithio hefo partneriaid allweddol er mwyn cryfhau'r dull o ymdrin â dioddefwyr caethwasiaeth fodern. Rydym yn ceisio codi ymwybyddiaeth ynghylch sut y gall edrych yng Ngogledd Cymru. A ydy'r unigolyn ifanc sy'n gwerthu cyffuriau yn ddioddefwr llinellau cyffuriau?  A ydy'r golchwr car blêr yn o'i wirfodd neu'n weithiwr masnachol? Mae caethwasiaeth fodern yn bryder i bawb, ac rydym yn gofyn i'r cyhoedd fod yn wyliadwrus am yr arwyddion nad ydy rhywbeth yn iawn.”



**Anti-Slavery Day – Statement by the Deputy Police and Crime Commissioner**

Today, 16 October, is Anti-Slavery Day and to mark this date, Deputy Police and Crime Commissioner Wayne Jones has made the following comment: “Modern Slavery remains one of the most damaging and pervasive crimes happening today in the UK. It is often hidden and is very much under reported. I welcome the recognition and promotion of Anti-Slavery Day to raise awareness and understanding of what modern slavery looks like in North Wales and what can be done to combat it.

“Modern Slavery will generally fall under one of four categories, labour exploitation, criminal exploitation, sexual exploitation or domestic servitude and is often a key feature of Serious and Organised Crime. Its victims include the most vulnerable in our society. Many are children, often from disadvantaged and difficult backgrounds, frequently exposed to serious violence and abuse and all of them in need of an effective public service response.

“The Office of the Police and Crime Commissioner works with key partners to strengthen the approach to victims of modern slavery. We are seeking to raise awareness of what it can look like in North Wales. Is the young person selling drugs a county lines victim? Is the dishevelled car washer there willingly or is he a trafficked worker? Modern slavery is everybody’s concern, and we ask the public to be vigilant for the signs that something is not right.”

SWYDDFA COMISIYNYDD HEDDLU
A THROSEDD GOGLEDD CYMRU

OFFICE OF THE POLICE & CRIME
COMMISSIONER NORTH WALES

Rydych chi'n derbyn yr e-bost hwn oherwydd eich bod wedi cofrestru i dderbyn ein e-byst cylchlythyrau.

You are receiving this email as you signed up to receive our newsletter updates.

Eisiau newid sut rydych chi'n derbyn yr e-byst hyn?
Cysylltwch â ni drwy socialmedia@northwales.police.uk i ddiweddaru eich dewisiadau neu ddad-danysgrifio o'r rhestr hon.

Want to change how you receive these emails?
Contact us via socialmedia@northwales.police.uk to update your preferences or unsubscribe from this list.


Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru
Pencadlys yr Heddlu
Glan y Don
Bae Colwyn
Conwy LL29 8AW

Office of the Police and Crime Commissioner North Wales
Police Headquarters
Glan y Don
Colwyn Bay
Conwy LL29 8AW



Gallwch ddarllen ein polisi preifatrwydd yma:
https://www.northwales-pcc.gov.uk/cy/polisi-preifatrwydd

You can read our privacy policy here:
https://www.northwales-pcc.gov.uk/privacy-policy